Mae rheoli iechyd a diogelwch yn y diwydiant arlwyo yn werth chweil

Taflen wybodaeth HSE

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhan o gyfres a gynhyrchir gan Bwyllgor Cyswllt Iechyd a Diogelwch yn y Diwydiant Lletygarwch. Rhoddir manylion am y Pwyllgor ar y diwedd. Mae'n cynnwys cyngor ymarferol ar sut y gall cyflogwyr fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol ac fe'i hysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer sefydliadau arlwyo bach. Bwriedir iddi gael ei hatgynhyrchu drwy aelod-sefydliadau a llwybrau eraill er mwyn cyrraedd arlwywyr.

Pam poeni am iechyd a diogelwch?

Mae ystadegau wedi profi bod arferion rheoli gwael yn achosi damweiniau ac yn costio arian, amser ac ymdrech.

Cododd nifer yr anafiadau difrifol i gyflogeion yn y diwydiannau gwesty ac arlwyo 4% yn 2004/05 i 1224. Dyma'r nifer uchaf a gofnodwyd yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf ac mae'n parhau â'r duedd ar i fyny a welwyd ers 2001/01. Mae'r gyfradd o anafiadau difrifol hefyd yn parhau â thueddiad ar i fyny o'r ddwy flynedd flaenorol, gan godi o 67.1 fesul 100 000 o gyflogeion i 69.4. Digwyddodd 55% o anafiadau difrifol o ganlyniad i lithro neu faglu. Yn yr un flwyddyn hon, digwyddodd dros 5000 o ddamweiniau i gyflogeion nad oeddent yn ddifrifol, ond a arweiniodd at dri diwrnod neu ragor o'r gwaith. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli costau o ran poen a dioddefaint i unigolion ac o ran costau uniongyrchol i gyflogwyr.

Mae eich cyflogeion yn llai tebygol o gael damweiniau ac iechyd gwael o ganlyniad i'r gwaith os oes gennych reolaethau da ar waith.

Cyfrifoldebau rheolwyr

Bydd y daflen wybodaeth hon yn dangos ei bod yr un mor bwysig i reoli iechyd a diogelwch ag unrhyw agwedd arall ar eich busnes.

Taflen Wybodaeth Arlwyo Rhif 4

Beth yw'r prif risgiau?

Bydd gan weithleoedd unigol, wrth gwrs, eu patrymau risg eu hunain, ond prif achosion damweiniau ac iechyd gwael yn y diwydiant arlwyo yw:

- llithro, baglu a chwympo;
- codi a chario;
- dod i gysylltiad ag arwynebau poeth a sylweddau niweidiol;
- dermatitis;
- anhwylderau'r breichiau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Beth y gellir ei wneud?

Cofiwch, gellir atal y rhan fwyaf o ddamweiniau drwy reolaeth a goruchwyliaeth dda wedi'u cyfuno â hyfforddiant effeithiol, sy'n golygu y bydd atal damweiniau yr un peth ag unrhyw agwedd arall ar redeg busnes llwyddiannus. Dylai ystyriaeth a chynllunio gofalus wrth ymdrin â'r meysydd hynny o arlwyo lle mae'r risgiau ar eu gwaethaf helpu i atal damweiniau a lleihau costau. Bydd hefyd yn dangos i swyddogion gorfodi eich bod yn dilyn y trywydd cywir tuag at gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Hyfforddiant

Mae gan berchnogion a rheolwyr ddyletswyddau cyfreithiol wedi'u diffinio'n glir ynglŷn â hyfforddi cyflogeion. Mae'n ofynnol gan y gyfraith bod pob cyflogwr a phob person hunangyflogedig yn ystyried eu hanghenion hyfforddi iechyd a diogelwch eu hunain a'u holl gyflogeion, yn cynnwys y rhai sydd newydd eu recriwtio, gweithwyr rhan-amser a staff dros dro neu asiantaeth. Mae'n bwysig gwerthfawrogi bod yr amser a'r ymdrech a dreulir yn sicrhau bod staff yn gweithio'n ddiogel ac yn deall y rhesymau dros arferion da yn debygol o:

- arbed amser ac arian i'r busnes: bydd llai o arian ac amser yn cael ei wastraffu ar ddamweiniau staff, offer wedi'i ddifrodi, difrod i adeiladau ac adnoddau wedi'u gwastraffu;
- gwella morâl staff a theimladau o ddiogelwch, gan arwain at well gwasanaeth, ymrwymiad a chymhelliant.

Ymgynghori â chyflogeion

Dim ond drwy gydweithrediad y gweithlu y gellir gweithredu rheolaeth iechyd a diogewlch dda. Mae'n hanfodol bod eich cyflogeion yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'u bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch a allai godi yn y gwaith ac unrhyw systemau gwaith diogel a ddefnyddir.

Mae cydweithrediad eich gweithlu yn debygol o fod yn fwy adeiladol os byddwch yn ymgynghori â hwy ynghylch datblygu mesurau iechyd a diogelwch. Os ydych yn cydnabod undeb llafur, rhaid ymgynghori â chynrychiolwyr diogelwch ynglŷn â'r trefniadau iechyd a diogelwch cyn y cymerir camau. Lle nad oes undebau llafur perthnasol, dylid annog y gweithlu i benodi ei gynrychiolwyr diogelwch ei hun.

Mae cynnwys cynrychiolwyr diogelwch yn helpu i sicrhau y bydd mesurau iechyd a diogelwch yn effeithiol yn ymarferol.

Crynodeb

Ni fydd iechyd a diogelwch yn faich os caiff ei reoli'n dda.

Mae rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol yn:

- sicrhau nad yw'n faich;
- cadw costau i leiafswm a gall ddod ag arbedion;
- atal anafiadau ac iechyd gwael i adnodd pwysicaf eich busnes: pobl;
- lleihau'r posibilrwydd o hawliadau sifil.

Y ffordd orau o reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol yw:

- sylweddoli ei fod yn rhan annatod a hanfodol o reoli busnes;
- nodi'r prif feysydd risg a chymryd camau arnynt hwy yn gyntaf;
- gosod targedau clir i'ch hunan, er enghraifft, hyfforddi staff a dyrannu cyfrifoldebau'n glir;
- sicrhau goruchwyliaeth ddigonol;
- ymgynghori â staff ar bob cam.

Rôl swyddogion gorfodi

Mae a wnelo'r daflen wybodaeth hon â materion iechyd a diogelwch yn unig. Ni fwriedir iddi gwmpasu gofynion diogelwch bwyd a hylendid.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd arlwyo, swyddogion gorfodi'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mae arolygwyr HSE yn gofalu am iechyd a diogelwch mewn cyfleusterau arlwyo mewn sefydliadau megis ysbytai, ysgolion ac ati. Nid dim ond gorfodi'r gyfraith yw rôl swyddog gorfodi ond hefyd hyrwyddo iechyd a diogelwch, rhoi cyngor ar y gyfraith a sut i gydymffurfio â hi a rhoi cyngor ar ffynonellau eraill o wybodaeth - er enghraifft, cyfres o lyfrynnau sydd ar gael gan HSE.

Felly, mae swyddogion gorfodi ar gael i helpu busnesau a hyrwyddo iechyd a diogelwch.

Egwyddorion sylfaenol y gyfraith

Nid yw'r daflen hon yn ceisio esbonio'r gyfraith yn fanwl. Mae'n gyflwyniad byr i'r hyn y gall rheolwyr ei wneud i atal damweiniau ac iechyd gwael yn y gwaith. Fodd bynnag, nodir amlinelliad o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol yn gyffredinol isod.

Mae'n ofynnol o dan y gyfraith eich bod yn sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, iechyd a diogelwch eich hunan ac eraill y gellid effeithio arnynt gan yr hyn rydych yn ei wneud neu'n methu â'i wneud. Mae'r dyletswyddau'n cwmpasu pobl:

- sy'n gweithio i chi, yn cynnwys gweithwyr asiantaeth, achlysurol, rhan amser a dan hyfforddiant ac isgontractwyr;
- sy'n defnyddio gweithleoedd rydych yn eu darparu;
- sy'n cael defnyddio eich offer;
- sy'n ymweld â'ch adeiladau;
- y gellid effeithio arnynt gan eich gwaith;
- sy'n defnyddio eich gwasanaethau proffesiynol.

Efallai eich bod yn darparu gwasanaethau arlwyo i gyflogwyr eraill yn eu gweithle. Mae'r gyfraith yn gofyn i bob cyflogai sy'n rhannu'r un gweithle gydweithio a chydlynu iechyd a diogelwch.

Mae'r gyfraith yn berthnasol i bob adeilad gwaith ac mae gan bawb sy'n gweithio - cyflogai, goruchwyliwr, rheolwr, cyfarwyddwr neu berson hunangyflogedig - ei ddyletswyddau.

Yn ymarferol rhaid i chi nodi'r risgiau yn eich gweithle a, chyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, gymryd camau i'w lleihau neu eu dileu. Mewn rhai achosion, gall deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati ofyn am fesurau penodol.

Pwyllgor Cyswllt Iechyd a Diogelwch yn y Diwydiant Lletygarwch

Sefydlwyd y Pwyllgor gan y diwydiant lletygarwch a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n cynnwys cymdeithasau masnach a phroffesiynol o'r diwydiant, undebau llafur ac awdurdodau gorfodi. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel rhwydwaith i ddatblygu a chyfleu gwybodaeth a chanllawiau drwy'r diwydiant ac mae'n darparu fforwm lle y gellir nodi a datrys materion. Er na ellir derbyn ei daflenni gwybodaeth fel canllawiau terfynol HSE, maent yn rhoi gwybodaeth am arfer gorau o oddi fewn i'r diwydiant a dderbyniwyd, yn y gorffennol, gan HSE ac arolygwyr awdurdodau lleol fel ffordd o gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Cyngor a gwybodaeth bellach

Mae HSE yn cynhyrchu ystod eang o ddogfennau. Mae rhai ar gael fel cyhoeddiadau wedi'u hargraffu, ar werth ac am ddim, ac mae eraill ar gael drwy wefan HSE yn unig, www.hse.gov.uk.

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth a chyhoeddiadau am ddim ar gael o HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ar gael hefyd o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: www.hse.gov.uk.)

Am wybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch, neu adrodd anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ymwelwch â www.hse.gov.uk/. Gallwch weld cyfarwyddyd HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau prisiedig o'r wefan. Mae cyhoeddiadau HSE ar gael hefyd o siopau llyfrau.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

Gellir dod o hyd i fersiwn y we ar: www.hse.gov.uk/pubns/welsh/cais4.pdf.

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, arnodi neu fasnachu. Cyhoeddwyd yn gyntaf 09/95. Nodwch HSE fel y ffynhonnell.